


2025/26

Adroddiad Effaith

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais
ac atal troseddu.

Hollol ddienw.
Bob tro.



CrimeStoppers.

Speak up. Stay safe.



Cynnwys

1	Croeso gan ein Cadeirydd	16-21	Cysylltu â phob cymuned
2	Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol	22-24	Meithrin ymddiriedaeth a hyder
3	Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd	25	Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol
4-5	Cyflawni ein strategaeth	26	Canlyniadau ariannol
6-7	Achosion go iawn	27	Datganiad yr Archwilydd
8	Y flwyddyn mewn rhifau	28	Diolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr
9-15	Ysgogi gwybodaeth o ansawdd	29	Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol

Mae mwy o bobl nag erioed yn dewis codi eu llais

Croeso i Adroddiad Effaith diweddaraf ein helusen



Arglwydd Ashcroft KCMG PC
Sylfaenydd a Chadeirydd, Crimestoppers

Bob dydd, bydd pobl ar draws y DU yn gwneud dewis. Byddant yn penderfynu peidio anwybyddu'r hyn y maent wedi'i weld, ei glywed neu ei amau. Yn hytrach, byddant yn siarad gyda Crimestoppers mewn ffordd ddienw. Diolch i'w penderfyniad nhw i gamu ymlaen, caiff achosion eu datrys, caiff troseddwy'r sydd wedi ffoi eu dal a bydd cymunedau yn fwy diogel.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gynorthwyo'r cyhoedd, yr heddlu a phartneriaid trwy gynnig llwybr diogel ac y mae modd ymddiried ynddo er mwyn rhannu gwybodaeth am droseddu.

Mae mwy o bobl nag erioed yn dewis ymddiried yn ein haddewid i gadw pobl yn ddienw a rhannu gwybodaeth y byddent wedi ei chadw i'w hunain fel arall efallai.

Mewn ffordd dawl a dienw, maent yn helpu i gadw cymunedau yn ddiogel.

Chwalu'r rhwystrau

Ers sefydlu Crimestoppers bron i bedwar degawd yn ôl, mae un peth wedi aros yn wir: mae Troseddwy'r yn ffynnu pan fydd pobl yn teimlo nad ydynt yn gallu codi eu llais. Gall ofn, bygythiadau, ansicrwydd neu

bryderon am gael eu hadnabod atal rhywun rhag adrodd am yr hyn y maent yn ei wybod.

Mae Crimestoppers wedi chwalu'r rhwystrau hynny, gan gynnig y dewis i bobl godi eu llais mewn ffordd hollol ddienw.

Mae'r straeon yn yr adroddiad hwn yn dangos ehangder ein gwaith. O fynd i'r afael â throseddau mewn fudo cyfundrefnol a gwyngalchu arian i fêps anghyfreithlon, camfanteisio a throseddau gwledig, mae gwybodaeth ddienw yn parhau i helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid i atal niwed a diogelu pobl agored i niwed.

Y bobl y tu ôl i'n heffaith

Ni fyddai unrhyw ran o hyn yn bosibl heb y cannoedd ar filoedd o unigolion sy'n cysylltu â ni bob blwyddyn, na heb ymroddiad ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr. Diolchaf iddynt oll am eu cyfraniad.

Credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu. Trwy godi eu llais mewn ffordd ddienw, mae'r cyhoedd yn parhau i gyflawni rôl hanfodol wrth sicrhau bod hynny yn digwydd.

“ Mae mwy o bobl nag erioed yn defnyddio ein gwasanaeth, gan ddangos yr hyder cynyddol yn ein haddewid i gadw pobl yn ddienw ”

Ei gwneud yn haws i bobl rannu gwybodaeth mewn ffordd ddiogel



Mark Hallas OBE
Prif Weithredwr,
Crimestoppers

Unwaith eto eleni, gwelwyd gwerth gweithgarwch adrodd dienw y gall pobl ymddiried ynddo, gyda phartneriaethau cryf, ymgyrchoedd wedi'u targedu a buddsoddiad parhaus yn ein gwasanaethau.

Ar draws y DU, mae mwy o bobl wedi rhannu gwybodaeth sydd wedi ein helpu i gynorthwyo gydag ymchwiliadau, atal niwed a rhoi stop ar droseddu. Mae pob adroddiad dienw yn cynrychioli rhywun sy'n dewis gweithredu, yn aml dan amgylchiadau lle na fyddant wedi teimlo eu bod yn gallu codi eu llais fel arall.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn dangos, mae gwybodaeth ddienw yn helpu i fwrw goleuni ar droseddau sy'n gallu cael eu cuddio o hyd fel arall. Gan weithio gyda phartneriaid ar draws y DU, rydym wedi cynnal ymgyrchoedd ar faterion yn amrywio o droseddau mewnfudo cyfundrefnol a chamfanteisio i ladrata, trais a thwyll.

Buddsoddi ar gyfer y dyfodol
Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi yn nyfodol ein gwasanaethau. Eleni, llwyddodd ein gwasanaeth ieuenctid, Fearless, i gyrraedd dros ddwy filiwn o bobl ifanc a'u cefnogwyr, ac anfonwyd

22,000 o adroddiadau at yr heddlu yn yr Alban, sy'n nifer uwch nag erioed o'r blaen. Law yn llaw â hyn, mae offerynnau a thechnoleg newydd yn ein helpu i brosesu gwybodaeth mewn ffordd fwy effeithlon a gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'r heddlu ac i bartneriaid.

Ar yr un pryd, rydym wedi cryfhau ein ffocws ar gyrraedd cymunedau y gallent fod yn llai tebygol o ymgysylltu â dulliau adrodd traddodiadol.

Ymrwymiad a phenderfyniad
Rydw i'n arbennig o ddiolchgar i'n staff, ein gwirfoddolwyr, ein hymddiriedolwyr, ein partneriaid a'n cefnogwyr. Mae eu hymrwymiad nhw yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth unigryw sy'n helpu pobl i godi eu llais mewn ffordd ddiogel a dienw.

Rydym yn parhau i fod yn benderfynol ac yn uchelgeisiol am y dyfodol. Mae mwy y gallwn ei wneud o hyd i feithrin hyder, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a sicrhau bod pawb sy'n dymuno rhannu gwybodaeth am droseddu yn gwybod bod ffordd o wneud hynny y gallant ymddiried ynddi.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

“Mae pob adroddiad dienw yn cychwyn wrth i un person benderfynu nad cadw'n dawel yw'r ateb”

Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Gweledigaeth – pam ein bod yn bodoli
Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw.

Cenhadaeth – yr hyn a wnawn i gyflawni ein gweledigaeth
Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i chi godi eich llais ac atal troseddu mewn ffordd hollol ddienw.
Pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw, o gymunedau i gwmnïau.
Dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.
Rydym yn rhannu cyngor hefyd ynghylch sut i ddiogelu'r bobl a'r cymunedau yr ydych yn ymboeni amdanynt rhag troseddu, fel y gall pawb deimlo'n ddiogel.

- Gwerthoedd – yr egwyddorion sy'n tywys y ffordd yr ydym yn ymddwyn**
Yn Crimestoppers, credwn mai pobl sy'n rhoi stop ar droseddu. Mae ein cymuned o staff a gwirfoddolwyr yn byw ein gwerthoedd bob dydd:
- **Rydym yn ymboeni** – credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Gall troseddu beri cryn ofn, felly rydym yn cynnig gobaith.
 - **Rydym yn gynhwysol** – nid ydym yn barnu pobl. Rydym yma i bawb y mae ein hangen arnynt. Gallwn newid cymunedau er gwell trwy gydweithio.
 - **Gellir ymddiried ynom** – rydym yn elusen ddibynadwy, gonest ac annibynnol. Rydym yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac nid ydym fyth yn datgelu manylion unrhyw un sy'n cysylltu â ni.
 - **Rydym yn benderfynol** – rydym yn ymrwymo ein holl ymdrechion i sicrhau newid cadarnhaol. Rydym yn credu yn ein gallu i gyflawni.

Ein rôl
Rydym yn chwalu'r rhwystrau sy'n tawelu pobl a chymunedau trwy gynnig lle amgen i bobl, a lle y gallant ymddiried ynddo, i gyfleu gwybodaeth am droseddu heb unrhyw edliw. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei chael ac yn ei throsglwyddo yn sicrhau y caiff bywydau eu hachub, bod troseddau yn cael eu stopio, a bod dioddefwyr a'u hanwyliaid yn cael cyfiawnder.

Ein heffaith
Bob blwyddyn, rydym yn helpu i ddatrys ac atal miloedd o droseddau.


Ebrill 2025 – Mawrth 2026

Roedd
827,442
o bobl wedi cysylltu â ni. Nid yw ffigwr eleni yn cynnwys cyflwyniadau sothach ac annilys

268,929
Anfonom dros 268,000 darn o wybodaeth at yr heddlu.

35,791
Mae'r heddlu yn dweud wrthym ein bod wedi helpu i ddatrys ac atal dros 35,000 o droseddau. Gan nad yw'r holl heddluoedd yn cynnig adborth cynhwysfawr, gallwn amcangyfrif bod ein heffaith gymaint dwywaith â hyn.

Mwy na dwbl y lledaeniadau mewn degawd



Yr hyn a wnaethom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Ein strategaeth: Credwn yng ngrym pobl i helpu i roi stop ar droseddu.

Mae'r grym mewn codi llais – mae tawelwch yn caniatáu i droseddwyr ffynnu, i wneud dolur i ni ac i'r rhai yr ydym yn ymboeni amdanynt. Mae ein haddewid i gadw pobl yn ddienw wrth wraidd popeth a wnawn ac mae wedi'i ymwreiddio yng ngweithrediadau ein Canolfan Gyswllt ar gyfer y DU.

Amcanion ein helusen:

- Gwella ansawdd gwybodaeth ddienw y byddwn yn ei hanfon at yr heddlu a phartneriaid.
- Gwella ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau ymhlith ein defnyddwyr tebygol.
- Cynyddu nifer ein cefnogwyr, ein partneriaethau a'n rhwydweithiau er mwyn cyrraedd pob cymuned.
- Wrth gyflawni'r amcanion hyn, ein nod yw bod yn effeithiol, yn effeithlon a chynnig y gwerth gorau i'n buddiolwyr, ein partneriaid, ein staff a'n gwirfoddolwyr.



Gwella ansawdd gwybodaeth ddienw

Mae gwybodaeth o ansawdd yn ddefnyddiol i'r heddlu ac i bartneriaid, ac mae'n unigryw oherwydd ei bod yn cael ei darparu mewn ffordd ddienw. Rydym yn cynnal safonau uchel yn ein Canolfan Gyswllt i ddefnyddwyr a phartneriaid. Eleni rydym wedi:

- Gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid i wneud y broses o rannu ein gwybodaeth rhwng systemau yn un awtomatig, gan leihau'r amser prosesu
- Datblygu offeryn i'w beilota yn 2026-27, gan ddefnyddio model iaith mawr ymroddedig a phreifat i leihau amser prosesu ffurflenni ar-lein â llaw.
- Uwchraddio platfformau mewnol er mwyn trin data mewn ffordd fwy effeithlon a chyflwyno system ffôn newydd er mwyn deall bwriad y sawl sy'n galw.
- Gwella arferion recriwtio a hyfforddiant er mwyn gwella cyfraddau cadw ac felly, sefydlogrwydd ein timau.



Gwella ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau ymhlith ein defnyddwyr tebygol

Mae angen i'n defnyddwyr ymddiried yn ein haddewid i gadw pobl yn ddienw a theimlo'n hyderus bod codi eu llais yn gwneud gwahaniaeth. Gan weithio gyda chymunedau a phartneriaid, rydym yn sicrhau bod y rhai sydd leiaf tebygol o godi eu llais yn gwybod bod ein gwasanaeth yno iddynt. Eleni rydym wedi:

- Gweithredu ymgyrchoedd mewn cymunedau sydd fwyaf agored i droseddu ond sydd lleiaf tebygol o wybod neu o ymddiried mewn mecanweithiau adrodd traddodiadol.
- Adfywio ein huchelgais ar gyfer Fearless a chynnal ymgyrch genedlaethol a oedd wedi llwyddo i gyrraedd dros 2 filiwn o bobl ifanc yn eu harddegau, oedolion ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cynorthwyo.
- Datblygu Strategaeth Gyfathrebu er mwyn miniogi blaenoriaethau a sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i ganolbwyntio ar ddata a'i fod yn cyd-fynd ag anghenion sefydliadol.



Cynyddu nifer ein cefnogwyr, ein partneriaethau a'n rhwydweithiau er mwyn cyrraedd pob cymuned

Mae cefnogwyr a phartneriaethau cadarn yn hanfodol er mwyn rhoi stop ar droseddu.

Mae rhai yn cael gwybodaeth ddienw ar gyfer ymchwiliadau; mae nifer yn ein cefnogi ac yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer ein gwaith. Eleni, rydym wedi:

- Cydweithio'n agos gyda phartneriaid er mwyn creu cyfleoedd newydd sy'n gofyn am help y cyhoedd i ddatrys ac atal troseddau sy'n peri pryder mawr i'r cyhoedd, e.e. mewnffudo a drefnir, dwyn o siopau, tybaco a fêps anghyfreithlon.
- Cytuno ar gynllun newydd er mwyn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo gan drefniant tîm proffesiynol, effeithlon a hyblyg.
- Cadw tudalennau newyddion a sianelau cymdeithasol yn weithredol, rhannu negeseuon am ddiogelwch y cyhoedd a sicrhau gweithgarwch ymgysylltu gyda phartneriaid.



Rhedeg elusen effeithiol ac effeithlon

Rydym yn uchelgeisiol, yn ofalgar, gellir ymddiried ynom ac rydym yn gynhwysol, ac yn benderfynol o helpu i ddatrys ac atal troseddau wrth gadw pobl yn ddienw. Eleni, rydym wedi:

- Cydweithio gyda chydweithwyr, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid am gyfeiriad yr elusen yn y dyfodol, gan ystyried ein nodau a'n gweithgareddau er mwyn parhau i fod yn berthnasol ac yn gynyddol effeithiol.
- Datblygu Strategaeth Data er mwyn dangos effaith, sicrhau gwerth o'n data, gwella effeithlonrwydd a chynorthwyo arloesi.
- Clywed trwy ein harolwg staff bod cydweithwyr yn teimlo cysylltiad cryf gyda'n hachos, a gwella dysgu, buddion a chyfraddau cadw.
- Parhau i redeg elusen y mae ei sefyllfa ariannol yn gadarn, ac sy'n seiliedig ar bartneriaethau cadarn a rheolaeth bwyllog.



Gwneud gwahaniaeth

Straeon gwir, dienw

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos gwir effaith ein helusen. Newidiwyd y manylion er mwyn diogelu'r bobl ddewr sydd wedi cysylltu â ni.

Canfod llwyth o arfau yn arwain at gyfnod yn y carchar

Arweiniodd gwybodaeth ddienw at benderfyniad yr heddlu i gyhoeddi gwarant ar gyfer cyfeiriad preswyl, lle'r oedd heddweision wedi canfod sawl dyfais arddull taser, arfau wedi'u haddasu, bwa croes, reiffi awyr a phistol awyr. Arestwyd un unigolyn, fe'u cyhuddwyd o gyflawni troseddau arfau ac fe'u dedfrydwyd i bedair blynedd yn y carchar yn ddiweddarach.

Atal cyffuriau a oedd yn werth miliynau o bunnoedd rhag cael eu mewnfario

Roedd gwybodaeth a roddwyd mewn ffordd ddienw wedi nodi bod dau unigolyn yn teithio i'r DU o wlad dramor a bod amheuaeth eu bod yn cario swm mawr o ganabis yn eu bagiau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys

manyion teithio penodol, a oedd wedi galluogi Llu'r Ffiniau a phartneriaid yr heddlu i weithredu yn gyflym.

Pan ddychwelodd y teithwyr i'r DU, cawsant eu stopio gan swyddogion tollau. Ar ôl chwilio eu bagiau, darganfuwyd gwerth dros 100 cilogram o ganabis, ac amcangyfrifwyd bod hwn yn werth tua **£7 miliwn** ar y stryd.

Roedd y wybodaeth wedi helpu i atal swm sylweddol o gyffuriau rhag cyrraedd cymunedau, gan ddangos gwerth adrodd mewn ffordd ddienw wrth gynorthwyo gweithgarwch gorfodi'r gyfraith wrth y ffin.

Canfod arfau tanio, cyffuriau ac arfwisg

Cafwyd gwybodaeth bod unigolyn a oedd yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau yn meddu ar

arfau hefyd. Aeth yr heddlu ati i weithredu ar sail y wybodaeth, gan arestio a chyhuddo'r unigolyn dan amheuaeth. Ar ôl chwilio ei eiddo, canfuwyd arfau tanio, cyffuriau, arian parod, arfau eraill a fest gwrthfwledi, gan waredu risgiau difrifol i'r gymuned wrth i'r ymchwiliadau barhau.

Dioddefwr agored i niwed yn cael eu diogelu rhag stelcian ac aflonyddu

Roedd adroddiad am stelcian ac aflonyddu wedi galluogi heddweision i ymweld â dioddefwr, a oedd wedi datgelu troseddau pellach. Roedd yr heddlu wedi asesu bod y dioddefwr mewn perygl uchel o ddioddef niwed sylweddol. Arestwyd yr unigolyn dan amheuaeth ac fe'u cadwyd yn y ddalfa, wrth i'r heddweision gadarnhau y gallai'r wybodaeth fod wedi atal niwed difrifol pellach.

Diogelu tri phlentyn ifanc rhag esgeulustod

Roedd gwybodaeth ddienw wedi mynegi pryderon am dri phlentyn ifanc a oedd yn byw mewn amodau anniogel ac anhylan. Cynhaliwyd gwiriad lles gan heddweision, arestwyd oedolyn am esgeulustod, a symudwyd y plant i amgylchedd mwy diogel. Roedd yr achos yn amlygu sut y gall adrodd am bryderon ddiogelu plant agored i niwed mewn ffordd uniongyrchol.

Diogelu plentyn rhag camfanteisio

Roedd adroddiad i Crimestoppers wedi mynegi pryderon bod plentyn yn eu harddegau yn cael eu grwmio a'u bod yn destun camfanteisio gan unigolyn hyn yn eu harddegau. Aeth yr heddlu ati i ymateb i'r wybodaeth, gan arestio unigolyn am gipio plentyn yn nes ymlaen ar ôl i'r plentyn fynd ar goll. Gweithredwyd mesurau diogelu er mwyn helpu i ddiogelu'r person ifanc.

Diogelu dioddefwyr cam-drin domestig

Roedd gwybodaeth ddienw wedi rhybuddio bod menyw mewn perygl difrifol gan ddyn yr honnwyd bod ganddo arfau. Roedd yr heddlu wedi mynd ati i chwilio am y dioddefwr a siarad gyda hi, ac roedd hyn wedi datgelu ymosodiadau, bygythiadau i'w lladd a rheolaeth drwy orfodaeth.

Arestwyd yr unigolyn dan amheuaeth ac fe'u rhyddhawyd ar fechniaeth amodol tra bod yr ymchwiliad yn parhau.

Carcharu deliwr cyffuriau ar ôl cynnig gwobr


Roedd apêl gan Crimestoppers wedi sicrhau gwybodaeth a oedd wedi arwain yr heddlu at unigolyn yr oeddent yn chwilio amdanynt mewn perthynas â chyflenwad cyffuriau cyfundrefnol sylweddol. Arestwyd yr unigolyn dan amheuaeth ac fe'u carcharwyd yn ddiweddarach.

Rhoi stop ar gyflenwad meddyginiaethau anghyfreithlon

Arweiniodd gwybodaeth am feddyginiaethau colli pwysau didrwydded yn cael eu mewnfario a'u gwerthu ar-lein at gynnal gwarantau gyda phartneriaid arbenigol. Arestwyd nifer o bobl, a chanfuwyd cyfanswm sylweddol o eitemau gan heddweision.

Atal fferm ganabis fawr rhag cyrraedd y strydoedd

Roedd adroddiad wedi mynegi pryderon am weithgarwch amheus mewn eiddo gwag yn y Gogledd Ddwyrain, gan gynnwys arogl cryf canabis ac arwyddion bod planhigion yn cael eu tyfu. Cyhoeddwyd gwarant gan yr heddlu a chanfuwyd dros 1,200 o blanhigion canabis, yr oedd eu gwerth cyfunol posibl tua **£1.25 miliwn**.



CrimeStoppers.

Uchafbwyntiau

Ebrill 2025 – Mawrth 2026

827,442

Cyfanswm y cysylltiadau

78% ar-lein



22% dros y ffôn



+23.5%

Yn fwy o arestiadau a chyhuddiadau o'i chymharu â'r sefyllfa y llynedd

35,791

Canlyniad cadarnhaol



GWOBRAU

62

O wobrau estynedig wedi'u cynnig

£870,500

Cyfanswm gwerth y gwobrau estynedig a gynigiwyd

£244,308,733

Gwerth cyfan gwbl y sylw a sicrhawyd

GWEITHGARWCH

YMGYSYLLTU CRIMESTOPPERS



9,340

Darn wedi'i argraffu a'i ddarlledu

GWEFAN

9.7 miliwn

o edrychiadau tudalen gan

1.6 miliwn

o ymwelwyr â'r wefan

YMGYRCHOEDD CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL



10

Ymgyrch Genedlaethol

85

Ymgyrch Ranbarthol

33

Ar y cyd (CS a Fearless)

40

Ymgyrch Fearless

Ysgogi gwybodaeth o ansawdd

Gwyngalchu arian: Helpu i roi stop ar y rhai sy'n chwarae'n frwnt

Mae gwyngalchu arian yn problem ddifrifol gan ei bod yn gwneud bywyd bob dydd yn llai teg i bawb. Mae'n gwneud niwed i fusnesau cyfreithlon a phobl agored i niwed.

Mae hefyd yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn colli refeniw gwerthfawr a allai fod yn cael ei neilltuo i ofal iechyd, ysgolion a seilwaith.

Arian brwnt, niwed go iawn

Ar gais yr uned troseddau cyfundrefnol ranbarthol, cynhalïom ymgyrch ar draws De Orllewin Lloegr i ddangos bod gwir ddioddefwyr y tu ôl i arian sy'n cael ei wyngalchu, ac i annog unrhyw un sydd ag amheuan i godi eu llais mewn ffordd ddienw.

Unwaith y bydd gangiau troseddol yn gwneud eu helw, mae angen iddynt 'olchi'r' arian er mwyn cuddio unrhyw

Ein hymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd

606,113

o bobl

32,893

o bobl yn ymgysylltu â'n hymgyrch

1,907

unigolyn yn troi at dudalen ein hymgyrch ar y we am ragor o wybodaeth

Sicrhawyd gwerth

£53,325

o sylw yn y cyfryngau

Cynnydd o

42%

yn nifer yr adroddiadau am wyngalchu arian

gysylltiadau gyda gweithgarwch torri'r gyfraith.

Er mwyn osgoi cael eu dal, byddant yn aml yn defnyddio busnesau sy'n defnyddio arian parod fel 'wyneb blaen', fel tafarndai, siopau cludfwyd, cwmnïau tacsi lleol, cwmnïau cludo nwyddau, siopau trin ewinedd neu safleoedd golchi ceir. Yn aml, bydd gweithgarwch delio cyffuriau, nwyddau ffug, masnachu pobl, caethwasiaeth fodern, gwerthu arfau, camfanteisio a throseddau difrifol eraill yn gysylltiedig.

Ar ôl ei 'olchi', gellir defnyddio'r arian hwn i dalu am ffordd o fyw moethus yn y DU neu mewn gwlad dramor.

Roedd dros 32,000 o bobl wedi ymgysylltu â'n hymgyrch mewn ffordd weithredol, a arweiniodd at gynnydd o 42% yn nifer yr adroddiadau am wyngalchu arian.

Do you know about a business used as a front?

Organised criminals use high street businesses to clean dirty money.

Common fronts are barbers, car washes, nail salons, vape shops, and mini-marts.

If you know someone involved tell our charity, 100% Anonymously. Always. crimestoppers-uk.org

CrimeStoppers
0800 555111
100% anonymous. Always.

Unexplained wealth near you?

Easy money could be too good to be true.

Young people can be caught up in money laundering schemes by organised criminals who use their bank accounts to move dirty money.

If you suspect someone is trapped in a money laundering scheme, tell our charity, 100% Anonymously. Always. crimestoppers-uk.org

CrimeStoppers
0800 555111
100% anonymous. Always.

Money laundering enablers.

Professionals in the financial and property sectors are knowingly or unwittingly helping criminals.

Enablers often use seemingly legitimate businesses as a front to move dirty money.

Now someone tell our charity, 100% Anonymously. Always. crimestoppers-uk.org

CrimeStoppers
0800 555111
100% anonymous. Always.



Ymgyrch am fêps anghyfreithlon yn arwain at gannoedd o adroddiadau o ansawdd

Gwaharddwyd fêps untro yn y DU ym mis Mehefin 2025, a oedd yn golygu ei bod hi'n anghyfreithlon eu gwerthu neu eu cyflenwi yn y DU. Gyda miliynau yn cael eu taflu i ffwrdd bob wythnos, roedd y ddeddfwriaeth yn rhoi sylw i niwed amgylcheddol arwyddocaol. Roedd hefyd yn ymateb i bryderon ynghylch cynnydd yng nghyfraddau fepio ymhlith pobl ifanc, a oedd yn cael ei ysgogi gan gynhyrchion rhad, lliwgar a hawdd cael mynediad iddynt.

Roedd pryderon ehangach hefyd y gallai twf y fasnach mewn fêps anghyfreithlon ariannu troseddau mwy difrifol.

Gan ragweld y byddai gwerthwyr diegwyddor yn parhau i werthu cynhyrchion wedi'u gwahardd, bu Crimestoppers yn gweithio gyda

FACT (Ffederasiwn yn erbyn Dwyn Hawlfraint), gan fanteisio ar eu harbenigedd mewn masnachu anghyfreithlon.

Tirlun troseddol sy'n esblygu

Roedd ein hymgyrch genedlaethol yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth hollbwysig am y bobl a'r busnesau sy'n ymwneud â gwerthu a chyflenwi fêps anghyfreithlon.

Roedd y wybodaeth yn dynodi ei bod yn debygol y byddai'r cynhyrchion hyn yn cael eu gwerthu mewn ffordd anghyfreithlon trwy gyfrwng trafodion arian parod yn unig mewn siopa cyfleustra, stondinau marchnad ac mewn siopau fêps ar y stryd fawr, yn ogystal ag ar-lein.

Roedd yr ymgyrch hwn yn annog pobl i godi eu llais mewn ffordd ddienw, gan apelio at eu hymdeimlad o ddyletswydd ddinesig a'u pryder ynghylch atal niwed yn eu cymuned.

Yn ystod cyfnod yr ymgyrch, trosglwyddwyd **422 o adroddiadau** i'r awdurdodau perthnasol. At ei gilydd, rhannwyd **804 o adroddiadau** rhwng 23 Ebrill ac 17 Awst, gan gynnwys y cyfnod cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymgyrch.

Roedd y wybodaeth a drosglwyddwyd yn amlygu llwybrau cyflenwi, gwerthwyr twyllodrus a grwpiau troseddol ehangach. Roedd hefyd yn helpu i greu darlun cliriach o'r ffordd yr oedd fêps anghyfreithlon yn cyrraedd cymunedau.

UCHAFBWYNTIAU AM FÊPS ANGHYFREITHLON

ADRODDIADAU



Dosbarthwyd **422** o adroddiadau yn ystod cyfnod yr ymgyrch, rhwng 1 Mehefin a 9 Gorffennaf.

Dosbarthwyd **804** o adroddiadau ar draws cyfnod ehangach yr ymgyrch, rhwng 23 Ebrill ac 17 Awst, gan gynnwys gweithgarwch cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymgyrch.



Cynnydd o 123%
Gwelwyd cynnydd o 123% yn y gweithgarwch adrodd yn ystod y cyfnod ar ôl yr ymgyrch, o'i gymharu â'r cyfnod cyn yr ymgyrch.

SYLW YN Y WASG



£119,000 gwerth hysbysebu cyfatebol
54 miliwn Cyrhaeddiad cyfan gwbl

FACEBOOK AC INSTAGRAM

1,719,904 Sawl gwaith yr ymddangosodd yr hysbysebion ar sgrin

917,867 Pobl a gyrhaeddwyd o leiaf unwaith

32,092 Pobl a oedd wedi clicio trwodd o hysbysebion ar gyfryngau cymdeithasol

1.87% Cyfran o'r sesiynau gwyllo hysbyseb ar gyfryngau cymdeithasol a arweiniodd at glic

TUDALEN YR YMGYRCH AR Y WE

CHWILIO AC ARDDANGOS AR GOOGLE

98,948 Sawl gwaith yr ymddangosodd yr hysbysebion ar sgrin

26,769 Pobl a oedd wedi clicio ar hysbyseb

27.05% Cyfran o'r sesiynau gwyllo hysbyseb a arweiniodd at glic


4,451 Cyfanswm yr edrychiadau ar dudalen yr ymgyrch ar y we

242 Ymwelwyr a aeth ymlaen o'r dudalen i'r ffurflen adrodd

2,957 Ymwelwyr unigol â'r dudalen

112 Adroddiad dienw a gyflwynwyd trwy'r ffurflen

DADANSODDIAD O DUEDDIADAU'R YMGYRCH



Ymateb i ymgyrch a dysgu gan weithgarwch smyglo pobl

Mae smyglo pobl i mewn i'r DU yn rhywbeth eithriadol o beryglus ac mae'n gallu arwain at anaf difrifol neu farwolaeth. Mae gangiau troseddol yn manteisio ar bobl agored i niwed, ac yn eu gorfodi i deithio mewn cychod anniogel neu gerbydau sy'n orlawn dan amodau creulon.

Mae risgiau penodol i groesi y Sianel mewn cychod bychain, sef risgiau tywydd eithafol a diffyg bwyd neu ddŵr, i'r perygl o foddï ar un o lwybrau llongau prysuraf y byd.

Ym mis Chwefror 2026, lansiodd Crimestoppers ymgyrch 10 wythnos mewn cymunedau ar draws y DU lle y siaradir Sorani Cwrdeg a Pashto. Roedd yn canolbwyntio ar gost ddynol smyglo pobl ac roedd yn annog unrhyw un sydd â gwybodaeth i'w hadrodd mewn ffordd ddienw. Cefnogwyd yr ymgyrch gan weithgarwch hysbysebu ar Meta, Google ac mewn safleoedd yn yr awyr agored.

Yr hyn a ddigwyddodd
Llwyddodd yr ymgyrch i gyrraedd ei chynulleidfaoedd targed, gan gymhell pobl i weithredu, a gwelwyd gweithgarwch adrodd ac ymgysylltu cryf ar-lein. Yn bwysicaf oll, roedd pobl wedi cysylltu â Crimestoppers i drosglwyddo gwybodaeth, gan ddangos gwerth llwybr clir a dienw i'r rhai sy'n gofidio am siarad â'r awdurdodau yn uniongyrchol.

Roedd y perfformiad ar-lein yn gryf hefyd. Roedd y gwerthusiad o'r ymgyrch yn dangos gweithgarwch ymgysylltu uchel ar draws sianelau taledig, yn enwedig hysbysebu Google, ac ymddygiad cadarn ar y dudalen ar y we. Ar y dudalen lanio Saesneg, roedd **964 o ddefnyddwyr** wedi symud ymlaen i'r ffurflen adrodd a chyflwynwyd **319 o adroddiadau** yn ystod cyfnod yr ymgyrch, gan ddynodi ymddiriedaeth, eglurder a hyder yn llwybr adrodd dienw Crimestoppers.

Fel y disgwyl gyda phwnc mor sensitif, roedd rhai ymatebion gan y cyhoedd, yn enwedig i'r

hysbysebion Saesneg, yn feirniadol. Roedd y sylwadau wedi symud tuag at safbwyntiau ehangach ynghylch mewnfudo yn hytrach na'r camfanteisio troseddol sydd wrth wraidd smyglo pobl.

Yr hyn a ddysgom
Roedd yr ymateb yn amlygu her gyfathrebu bwysig: gall negeseuon diogelu fod yn bwerus ar gyfer cynulleidfaoedd bwriadedig, ond gallant gael eu dehongli mewn ffordd wahanol gan y cyhoedd yn ehangach pan fo mewnfudo yn rhan o'r ddadl. Mae'r dirnadaethau hyn yn siapio ymgyrchoedd yn y dyfodol ynghylch smyglo pobl, ac yn ein helpu i ddiogelu'r neges ynghylch diogelu, gan barhau i annog pobl sydd â gwybodaeth i godi eu llais mewn ffordd ddienw.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgyrch yn dangos, hyd yn oed mewn sgwrs gyhoeddus anodd, bod negeseuon clir ynghylch adrodd yn ddienw yn gallu arwain at weithredu ystyrlon.



Gwasanaeth chwythu'r chwiban newydd ar gyfer canolfannau symud mewnfudwyr

Mae gan y Gwasanaeth Gorfodi Mewnfudo gyfrifoldebau arwyddocaol, gan oruchwyllo canolfannau symud mewnfudwyr ar draws y wlad.

Mae tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn hanfodol, o ystyried natur sensitif a chymhleth ei waith.

Yn 2025, lansiom Linell Uniondeb Mewnfudo, gan gynnig ffordd ddienw i bobl adrodd am ymddygiad llwgr neu amhroffesiynol mewn Canolfannau Symud Mewnfudwyr (IRCs).

Mae'r gwasanaeth ar gael i staff y Swyddfa Gartref, contractwyr, gweithwyr gofal iechyd, sefydliadau anllywodraethol fel y Bwrdd

“
Mae'r gweithgarwch adrodd wedi codi 400% hyd yn hyn yn ystod 2026 o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2025, gan awgrymu ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwasanaeth a hyder cynyddol mewn gweithgarwch adrodd dienw
”

Monitro Annibynnol, unigolion dan gadwad a'u hymwelwyr. Caiff ei hyrwyddo ar draws y canolfannau mewn ardaloedd

cymunol staff, wrth fynedfeydd, safleoedd ymwelwyr ac ar ffônau a ddosbarthir gan y canolfannau.

Hyder cynyddol mewn gweithgarwch adrodd
Mae'r gwasanaeth yn un dienw. Fodd bynnag, gall pobl ddewis nodi eu manylion cyswllt, sy'n galluogi i Uned Atal Llygredigaeth ac Ymchwiliadau Gwasanaethau Cadw y Swyddfa Gartref i geisio eglurder neu wybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn.

Mae'r gweithgarwch adrodd wedi **codi 400%** hyd yn hyn yn ystod 2026 o'i gymharu â'r sefyllfa yn 2025, gan awgrymu ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwasanaeth a hyder cynyddol mewn gweithgarwch adrodd dienw.

Datblygu strydoedd mwy diogel ar draws Llundain

Mae Crimestoppers yn gwneud gwaith diflino gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gynorthwyo cymunedau mwy diogel rhag troseddu gan gynnwys y rhai sy'n cael effaith negyddol ar y stryd fawr a'r sectorau manwerthu.

Roedd menter i roi hwb i wybodaeth am y rhai sy'n gyfrifol am ddwyn, lladrata, byrgleriaeth a chipio ffonau ar draws ardal Llundain Fwyaf yn un enghraifft o hyn.

Gan weithio gyda'r Swyddfa Gartref, Swyddfa Plismona a Throseddu y Maer (MOPAC) a Heddlu Llundain, cynhaliodd ein helusen yr ymgyrch rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025. Er gwaethaf maint Llundain, llwyddodd i gyrraedd yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan droseddu ar draws y 32 bwrdeistref.

Arweiniodd yr ymgyrch at drosglwyddo **bron i 2,000 o adroddiadau gwybodaeth** i'r heddlu.

Cefnogaeth nodedig gan y cyhoedd

Y nod cyffredinol oedd meithrin hyder y cyhoedd, lleihau niwed a gwella llif y wybodaeth er mwyn cynorthwyo plismona gweithredol.

Roedd ansawdd yr adroddiadau – gyda gwybodaeth yr oedd modd gweithredu yn ei chylch – wedi helpu i gynorthwyo gweithgarwch yr heddlu ar draws prifddinas y DU, ac roedd hyn yn hanfodol.

Niwed ar y stryd fawr

Roedd y negeseuon yn canolbwyntio ar effaith go iawn troseddau ar y stryd fawr ar unigolion, cymunedau ac



economiâu lleol, gan ategu ein haddewid i gadw pobl yn ddiennw er mwyn meithrin ymddiriedaeth a lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag codi eu llais.

Roedd y ddarpariaeth lwyddiannus yn rhannol o ganlyniad i gydweithio ar draws awdurdodau lleol, timau diogelwch cymunedol, busnesau, partneriaid iechyd,

grwpiau ffydd a rhwydweithiau Gwarchod Cymdogaeth.

Roedd y canlyniadau wedi cynnig dirnadaeth fanwl ar lefel bwrdeistref o batrymau troseddu a phryderon cymunedol, gan gynnig tystiolaeth gadarn i bartneriaid er mwyn cyfrannu at ymgyrchoedd yn y dyfodol a gweithrediadau gan yr heddlu.



Twf parhaus yn nifer y bobl sy'n adrodd am achosion lle y mae pobl yn dwyn ynni



Mae Stay Energy Safe, y gwasanaeth adrodd am achosion o ddwyn ynni ac amharu ar fesuryddion, ar fin dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiant ysgubol.

Lansiwyd y gwasanaeth ym mis Medi 2016, gan gynnig ffordd ddiogel i bobl adrodd eu hamheuron ynghylch achosion o ddwyn ynni, trosedd eithriadol o beryglus ac sy'n gallu lladd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol lawn gyntaf (1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018), anfonom **2,613 darn** o wybodaeth i'r sector ynni.


Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, trosglwyddwyd **13,778 darn o wybodaeth** am achosion lle'r oedd amheuaeth bod ynni yn cael ei ddwyn, ymlaen i'r sector ynni ym Mhrydain gan unigolion yr oeddent yn dymuno aros yn hollol ddiennw.

Mae hyn yn cynrychioli **twf** o ychydig dros **427% o ran nifer yr adroddiadau a ddosbarthwyd**, ac mae hwn yn ddarn bach o'r darlun mawr yn unig.

Dylanwadwyr

Wrth i'r gwasanaeth esblygu, mae gwaith marchnata mwy clyfar wedi ein helpu i gyrraedd y bobl gywir trwy gyfrwng sianelau a negeseuon mwy effeithiol, gan arwain at y twf sylweddol hwn o ran nifer yr adroddiadau dros y blynyddoedd.

Yn 2025, roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda nifer o ddylanwadwyr a oedd wedi caniatáu i ni fabwysiadu dull mwy dynol, gan ddefnyddio



Luke, peiriannydd nwy, a Kimmy the Sparks, i gyfleu peryglon dwyn ynni mewn ffordd fyw.

Maint y problem

Amcangyfrifir bod tua 250,000 achos o ddwyn ynni, neu o darfu ar fesuryddion, yn digwydd bob blwyddyn, heb i unrhyw un adrodd amdanynt. Mae digon o waith i'w wneud o hyd er mwyn:

- addysgu pobl am beryglon dwyn ynni
- sicrhau eu bod yn gwybod yr hyn i gadw golwg amdano er mwyn adnabod y gweithgarwch peryglus a throseddol hwn
- hyrwyddo'r alwad i weithredu fel bod aelodau'r cyhoedd yn gwybod eu bod yn gallu adrodd yr hyn y maent yn ei wybod, fel y gallant godi eu llais a pharhau i fod yn ddiogel.

Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael, fel bod y rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau yn gwybod ble i gael help mewn ffordd ddiogel, ac er mwyn eu hatal rhag tarfu ar eu mesurydd fel ffordd o leihau eu costau ynni.

Gall peryglon y drosedd hon arwain at ganlyniadau difrifol i unigolion, teuluoedd, cartrefi, busnesau, eiddo cyfagos a'r gymuned ehangach.



Ymgyrch am berthnasoedd iach dan arweiniad pobl ifanc yn cyrraedd bron i 200,000 o bobl ifanc



Nid yw perthnasoedd iach wastad yn hawdd i bobl eu diffinio, yn enwedig pan allai ymddygiad niweidiol neu reolaethol fod yn cael ei guddio, ei normaleiddio neu ei esgusodi.

Roedd Fearless yn Llundain wedi partneru gyda Chyngor Ieuencid Hammersmith a Fulham i ddatblygu ymgyrch perthnasoedd iach. Nod yr ymgyrch oedd helpu pobl ifanc i nodi ymddygiad mewn perthnasoedd nad ydynt yn iach, deall terfynau a cheisio cymorth pan fyddant yn teimlo'n annigol.

Dealltwriaeth hygyrch
Roedd yr ymgyrch hwn yn creu ffordd hygyrch, dan arweiniad pobl ifanc, o helpu pobl ifanc i ddeall y gwahaniaeth rhwng baneri coch a baneri gwyrdd, i deimlo'n fwy hyderus wrth adnabod ymddygiad annigol, ac i wybod ble i droi i gael cymorth.

Dangoswyd hysbysebion a oedd yn cynnwys ymatebion pobl ifanc ar draws cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys hysbysebion sain ar Spotify. Roedd yr holl gynnwys yn cyfeirio pobl ifanc at dudalen Fearless ar y we am Berthnasoedd Iach, er mwyn iddynt gael cyngor, cymorth a gwybodaeth am y gwasanaeth adrodd sy'n hollol ddienw.

Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau perfformiad ymgysylltu cadarn, gan gyrraedd bron i 200,000 o



bobl ifanc, a sicrhau dros 19,000 clic ar ddolenni, a chynnig cyfradd clicio trwodd (CTR) gyffredinol o 0.6%.

Yn ogystal, roedd Fearless wedi cyflwyno gweithdy ar-lein i 31 o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn ardal Hammersmith a Fulham, a'u helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth a chynorthwyo pobl ifanc i godi eu llais mewn ffordd ddienw.


Niferoedd cynyddol yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi eu ffydd yn Crimestoppers

Yng Ngogledd Iwerddon, mae mwy o bobl yn dewis cysylltu â Crimestoppers mewn ffordd ddienw, wrth i ychydig dros **5,200** o adroddiadau gael eu **dosbarthu**.

Mae ein helusen wedi gweithio gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) i gynnig sawl gwobr mewn perthynas ag achosion anodd neu amlwg iawn. Roedd y rhain yn cynnwys llofruddiaeth Sean Small yn Swydd Down a gwobr mewn perthynas â llofruddiaeth Glen Quinn.

Roeddem hefyd wedi cynnig gwobr er mwyn ymateb i sawl achos o ddwyn eitemau gwerthfawr iawn o ffermydd a chartrefi gwledig gan gynnwys eitemau fel beiciau cwad, offer fferm a pheiriannau amaethyddol.

Dadansoddiad blwyddyn i flwyddyn (ariannol) – Gogledd Iwerddon



Yr Alban: Helpu i ddiogelu oedolion sy'n ymwneud â phuteindra

Roedd Crimestoppers yr Alban wedi peilota ymgyrch a oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o drais a chamfanteisio rhywiol yn y diwydiant rhyw, gan annog adrodd dienw.

Yn aml, bydd camfanteisio a thrais rhywiol yn ffynnu mewn amgylcheddau cudd, wrth i nifer o ddioddefwyr fyw mewn ofn ac nid ydynt yn siŵr ble i geisio help.

Roedd yr ymgyrch, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026, yn canolbwyntio ar gyrraedd pobl y gallai eu hamgylchiadau eu cadw'n dawel, boed hynny oherwydd eu statws mewnffudo, y ffaieth eu bod yn ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, neu eu bod yn pryderu y byddant yn cael eu barnu. Gall hon fod yn broblem benodol o ystyried natur cudd y busnes.



Puteindra ar y stryd
Roedd yr ymgyrch yn cynorthwyo'r rhai sy'n gweithio gydag unigolion sy'n ymwneud â phuteindra ar y stryd hefyd. Roedd yn helpu cymunedau i adnabod arwyddion puteindai posibl yn eu hardal, gan gynnig canllawiau i'r diwydiant gwestai a hamdden trwy fenter **"Pwy yw'ch Gwestai Chi?"** er mwyn adnabod camfanteisio.

Cynhaliwyd lansiad yng Ngholeg Dyffryn Forth, Falkirk, a fynychwyd gan ystod eang o bartneriaid.

Canlyniadau a champau nesaf
Cynhaliwyd yr ymgyrch law yn llaw ag Ymgyrch Begonia Heddlu yr Alban a rhaglen Trais yn Erbyn Menywod a Merched Llywodraeth yr Alban.

O ganlyniad uniongyrchol i'r ymgyrch, cafwyd 40 darn o wybodaeth, gan alluogi Heddlu yr Alban a sefydliadau partner i ddiogelu unigolion agored i niwed yn well yn ein cymunedau.

Yn dilyn ei lwyddiant cychwynnol, bydd yr ymgyrch yn ehangu i Aberdeen, Inverness, Glasgow, Dundee a Chaeredin nawr.



EFFAITH YN YR ALBAN 2025-26

31,000
o bobl wedi trosglwyddo gwybodaeth am droseddau yn yr Alban yn ddienw.

21%
cynydd o 21% o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol

3,000
nifer yr erthyglau a luniwyd yn y cyfryngau

£9 milliwn
gwerth hysbysebu cyfatebol

22,000 o adroddiadau
Rhannom 22,000 o adroddiadau dienw gyda Heddlu yr Alban a phartneriaid gorfodi'r gyfraith eraill, sy'n nifer uwch nag erioed o'r blaen.
Arweiniodd y wybodaeth hon at arestio a chyhuddo troseddwy, canlyniadau cadarnhaol i filoedd a chyfiawnder i ddioddefwyr.

Stondin yn Sioe Frenhinol Cymru

Mae Sioe Frenhinol Cymru yn un o'r digwyddiadau amaethyddol mwyaf yn Ewrop o ran ei maint, ac mae'n denu dros 200,000 o ymwelwyr i Lanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys bob blwyddyn.

Mae'n ddathliad o fywyd gwledig, ffermio, treftadaeth a chymuned, sy'n golygu ei bod yn lle perffaith i Crimestoppers a Fearless, ein gwasanaeth ieuencid, i godi ymwybyddiaeth o droseddau gwledig a grym adrodd dienw.



Jenga i ddenu'r dorf
Eleni, roedd tîm Cymru wedi dod â rhywbeth ychwanegol i'r digwyddiad gyda'n gêm Jenga ryngweithiol a oedd yn rhoi Ffeithiau am Droseddu. Roedd y gêm fawr wedi denu'r tyrfaoedd, gyda phob bloc yn cynnwys cwestiwn cywir neu anghywir am droseddu,

Crimestoppers neu Fearless. Roedd yn cynnig ffordd hwyliog a digyffro i ni gychwyn sgysiau am faterion difrifol sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru, ac yn eu grymuso i godi eu llais mewn ffordd ddiogel.

Roedd teuluoedd, ffermwyr, myfyrwyr a phobl ifanc wedi


ymuno â ni, ac roedd nifer ohonynt wedi aros i holi mwy am yr hyn a wnawn a sut y gallant adrodd yr hyn y maent yn ei wybod. Roedd yn ffordd hyfryd o feithrin ymddiriedaeth, chwalu rhwystrau a dangos bod cymorth ar gael i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan droseddau.

Effaith yng Nghymru: twf parhaus yn ystod 2025-26

Mae Crimestoppers Cymru wedi parhau i gael effaith gadarn ar draws Cymru, wrth i **13,479 o adroddiadau gael eu rhannu** gyda heddluoedd, sef **cynnydd o 19%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu hyder cynyddol y cyhoedd mewn gweithgarwch adrodd dienw a gwerth y wybodaeth a ddarparir.

Mae'r adroddiadau wedi helpu i fynd i'r afael â mathau allweddol o droseddau gan gynnwys masnachu cyffuriau, gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau, a phryderon diogelu ehangach. Masnachu a chyflenwi cyffuriau oedd y mater mwyaf cyffredin yr adroddwyd amdano ar draws Cymru o hyd, gan amlygu'r her parhaus a welir oherwydd grwpiau troseddau cyfundrefnol.

Roedd **Fearless** wedi cyflawni rôl allweddol hefyd, gan **ymgysylltu â 28,485 o bobl ifanc ar draws Cymru** trwy gyfrwng ysgolion, lleoliadau cymunedol a gwaith allgymorth. Mae'r gwaith hwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio, troseddau cylllell a llinellau cyffuriau, gan gynnig ffyrdd diogel i bobl ifanc godi eu llais.



'A Girl Called Alice': Ffilm fer newydd yn bwrw goleuni ar ddwyn ffonau trefnedig

Mae Crimestoppers yn cefnogi 'A Girl Called Alice', ffilm fer newydd gan gwmni cynhyrchu annibynnol Fact Not Fiction Films, sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n bartner elusenol.

Mae'r ddrama fer 15 munud rymus yn cyfleu realiti dwyn ffonau trefnedig ar y sgrin, gan gyfleu neges bwysig am ddiogelwch y cyhoedd. Roedd rhwydwaith cyfathrebu EE yn y DU wedi cefnogi cynhyrchiad y ffilm hefyd.

Medr yn troi'n drosedd
Lleolir y ddrama droseddau ar strydoedd Llundain heddiw, gan

Roedd dros **100,000 o ffonau** wedi cael eu dwyn yn Llundain yn unig yn **2024**

Symudir tua **75% o'r dyfeisiau sy'n cael eu dwyn i wledydd tramor, i'w hailwerthu mewn gwledydd lle nad yw cosbrestr rhwydwaith y DU yn berthnasol**

Mae Heddlu Llundain a Maer Llundain wedi galw ar gynhyrchwyr dyfeisiau i gymryd camau dylunio sy'n mynd i roi stop ar ddwyn ffonau

ddilyn Alice, menyw ifanc sy'n cael ei hystyried yn un o ladron ffonau mwyaf medrus y ddinas.

Pan gaiff ei herio gan arweinydd gang i brofi ei gallu, mae ymgrych gan yr heddlu yn dechrau cau i mewn yn dawel, gan ddangos maint a strwythur y rhwydweithiau troseddol sydd y tu ôl i achosion dwyn ffonau cyffredin.

Fel elusen annibynnol, mae Crimestoppers yn defnyddio'r ffilm er mwyn annog pobl i fod ar eu gwyliadwriaeth, i ddiogelu eu ffonau ac i godi eu llais am y rhai sy'n ymwneud â dwyn ffonau.

Diogelu a chynorthwyo pawb sy'n ymwneud â chwaraeon dawn

Mae Cymdeithas DanceSport Prydain (BDSA), mewn partneriaeth â Crimestoppers, wedi lansio BDSA Be Safe, gwasanaeth adrodd diogelu a dienw annibynnol penodedig a gynlluniwyd ar gyfer y gymuned chwaraeon dawn yn benodol.

Fel y corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon dawn, mae BDSA yn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn dawn mewn amgylchedd diogel, cynhwysol a pharchus. Trwy gyfrwng y gwasanaeth newydd hwn, gall dawnswyr, rhieni, hyfforddwyr, dyfarnwyr, gwirfoddolwyr, swyddogion ac unrhyw un sy'n ymwneud â chwaraeon dawn fynegi pryderon pan na fyddant yn teimlo'n gyffyrddus i siarad â rhywun yn uniongyrchol.

Mae Cymdeithas Chwaraeon Dawn Prydain yn llywodraethu chwaraeon dawn cystadleuol ar draws y DU, gan gefnogi pob genre dawn cydnabyddedig.

Dyfodol mwy diogel ar gyfer Chwaraeon Dawn

Mae BDSA Be Safe yn cynnig ffordd ddiogel a chyfrinachol i adrodd am bryderon sy'n ymwneud â diogelu, cam-drin, bwllo, aflonyddu, ymddygiad amhriodol, bygwth, grŵmio, gwahaniaethu neu unrhyw fater a allai roi unigolyn mewn perygl neu a allai beryglu eu lles mewn amgylchedd chwaraeon dawn.



Pan ddarparir gwybodaeth ddigonol, bydd Crimestoppers yn trosglwyddo'r adroddiad i Gymdeithas DanceSport Prydain mewn ffordd ddiogel, gan alluogi i gamau priodol gael eu hystyried yn unol â gweithdrefnau diogelu y Gymdeithas.

Camfanteisio cudd yn economi gigiau Caerlŷr

Sefydlwyd ymgyrch **Gwaith Teg, Byd Teg** er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio llafur sy'n effeithio ar rai gyrwyr danfon nwyddau sy'n gweithio yn economi gigiau Caerlŷr.

Mae'n gallu bod yn anodd adnabod camfanteisio. Efallai y bydd gweithwyr yn wynebu amodau annheg, efallai y bydd eu henillion yn cael eu cadw'n ôl neu byddant yn wynebu arferion gorfodaethol sy'n golygu nad oes ganddynt fawr iawn o reolaeth dros eu hincwm, eu diogelwch neu eu bywydau gwaith.

Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn partneriaeth â Crimestoppers a Heddlu Caerlŷr, ac mae'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol,

negeseuon uniongyrchol i ffonau symudol, hysbysebu y tu allan i'r cartref, cysylltiadau cyfryngau a gwaith ymgysylltu plismona bro er mwyn helpu pobl i adnabod arwyddion camfanteisio ac adrodd pryderon mewn ffordd ddienw.

Cyrhaeddiad cadarn

Er bod y gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ardal ddaearyddol gymharol fach, llwyddodd i fod yn weladwy iawn. Roedd y deunydd wedi cyrraedd dros 57,000 o bobl ar gyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau dros 236,000 o argraffiadau. Llwyddodd gweithgarwch AdVan i gyrraedd dros 73,000 o bobl y dydd ar gyfartaledd ar draws tri diwrnod o ddefnydd, ac roedd y

sylw yn y cyfryngau wedi ymestyn cyrhaeddiad yr ymgyrch ymhellach, gyda chynulleidfda amcangyfrifedig o dros 5.2 miliwn o bobl.

Llwyddodd tudalen lanio yr ymgyrch i ddenu cannoedd o edrychiadau, gan arwain at **20 adroddiad o ansawdd uchel** yn cael eu dosbarthu yn ystod cyfnod yr ymgyrch, mewn perthynas â'r ardal a dargedwyd.



Apêl yn arwain at fwy o wybodaeth am ddwyn offer ffermio yn Hampshire



Ar draws cefn gwlad Hampshire, mae dwyn beiciau cwad, peiriannau cloddio bychain, generaduron ac offer gwerthfawr arall wedi bod yn bryder cynyddol.

Mae'n tarfu ar fywoliaeth pobl, mae'n rhoi pwysau ar fusnesau lleol ac mae'n cyfeirio at gangiau troseddol cyfundrefnol sy'n gweithredu y tu hwnt i linellau cyffuriau, ac mewn rhai achosion, mewn gwledydd tramor.

Er mwyn helpu i gau'r bwlch o ran gwybodaeth, cynhaliom ymgyrch wedi'i dargedu er mwyn cyflwyno'r mater i'r bobl y byddent fwyaf tebygol o weld rhywbeth defnyddiol: cymunedau gwledig, busnesau fferm, masnachwyr, a gweithwyr mewn porthladdoedd a dociau. Mae nifer o'r grwpiau hyn mewn sefyllfa berffaith i adnabod gweithgarwch amheus.

Roedd yr ymgyrch yn cyfuno cyngor ynghylch atal gyda galwad glir i

weithredu er mwyn cael manylion y rhai sy'n ymwneud â dwyn, storio a symud offer fferm.

Roedd yr ymgyrch yn annog pobl i gadw golwg am ymddygiad amheus y gallai gael ei ddiystyru fel arall. Roedd adroddiadau dienw am droseddau meddiannu **wedi codi 50%**, gan roi rhagor o wybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwydweithiau troseddol sy'n dwyn ac yn lladrate yng nghefn gwlad.

Deunydd briffio yn helpu cynghorwyr yn Wiltshire i hyrwyddo cymunedau mwy diogel

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2025, roedd gwirfoddolwr yn Wiltshire wedi trefnu sesiwn briffio ar-lein i gynghorwyr newydd ar draws y sir. Roedd y sesiwn ryngweithiol yn cyflwyno gwybodaeth am hanes Crimestoppers, gan esbonio sut y mae ein gwasanaeth adrodd dienw yn gweithio, ac roedd yn rhoi trosolwg o Fearless ac yn dangos sut y gall cynghorwyr gynorthwyo ein gwaith yn lleol.

Roedd y sesiwn wedi denu 65 o fynychwyr. Gyda mewnbyn y

Rheolwr Rhanbarthol a gwirfoddolwyr lleol, clywodd y cynghorwyr fwy am Crimestoppers a **Fearless yn Wiltshire, y Rhaglen Cenhaden Cymunedol**, ac am gyfleoedd gwirfoddoli ymarferol i godi ymwybyddiaeth yn lleol.

Trwy gryfhau cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol, arweinwyr cymunedol a Crimestoppers,



roedd y sesiwn friffio yn dangos sut y gall gweithio mewn partneriaeth helpu i wneud Wiltshire yn fwy diogel i bawb.



Diweddariad am y Ganolfan Gyswilt: cynnydd o 73% mewn adroddiadau lle y mae amser yn hollbwysig

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer yr adroddiadau lle y mae gofyn i'r heddlu roi sylw iddynt ar unwaith wedi codi 73% o un flwyddyn i'r llall.

Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd arwyddocaol yn nifer yr adroddiadau sy'n ymwneud â throseddau sy'n digwydd ar y pryd, bygythiadau i fywyd, arfau a phryderon diogelu uniongyrchol am bobl agored i niwed.

Natur mwy brys, mwy o gymhlethdod

Nid yw hwn yn fesur o'r cyfanswm yn unig, ond yn arwydd o'r galw am ein gwasanaeth, sy'n newid. Mae hefyd yn amlygu cymhlethdod cynyddol yr amgylchedd yn ein Canolfan Gyswilt ar gyfer y DU.

Mae ein proses brysbennu yn allweddol er mwyn nodi'r adroddiadau hyn yn gyflym. Mae

goruchwyliaeth ddynol arbenigol yn y tîm yn parhau i fod yn hanfodol, ac mae'n ein helpu i wneud asesiadau go iawn o fygythiad, niwed a risg mewn ffordd hyderus.

Mae proffesiynoldeb ac arbenigedd staff ein Canolfan Gyswilt yn sicrhau, pan fydd pob munud yn bwysig, bod gwybodaeth hanfodol a roddir i ni yn cael ei throsglwyddo i'r bobl gywir yn ddi-oed.

Gwneud y penderfyniad cywir dan bwysau

Nid yw'r tîm yn prosesu gwybodaeth yn unig; mae'n gwneud penderfyniadau gwybodus ar sail risg, sy'n gofyn am wydnwch a barn gadarn.

Maent yn delio â gwahanol weithdrefnau uwchgyfeirio ar draws heddluoedd y DU er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lle y mae'r amser yn hollbwysig yn cyrraedd y man

cywir yn ddi-oed, gan barhau i ddiogelu ein haddewid i gadw pobl yn hollol ddienw.

Er bod y rhesymau dros y cynnydd hwn yn debygol o fod yn gymhleth, mae'n amlwg ei fod yn dangos hyder yn Crimestoppers fel gwasanaeth dienw yr ymddiriedir ynddo ar gyfer rhannu gwybodaeth hollbwysig. Rydym yn parhau i rymuso pobl i godi eu llais, i gadw'n ddiogel ac i rannu'r hyn y maent yn ei wybod, nid pw ydyn nhw, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Mae parodrwydd y cyhoedd i weithredu, yn hytrach na chadw'n dawel, yn rhoi Crimestoppers mewn safle freintiedig o ran ymddiriedaeth. Mae tîm ein Canolfan Gyswilt yn gwneud gwaith diflino i wasanaethu'r cyhoedd a'n partneriaid, gan sicrhau bod gwybodaeth hollbwysig yn gallu gwneud gwahaniaeth pan fydd o'r pwys mwyaf.

Diweddariad am ddatblygiad pobl a sefydliadol: Y bobl y tu ôl i'r effaith



Ffair recriwtio yn ne Llundain

Ein cenhadaeth yw helpu pobl i godi eu llais am droseddau mewn ffordd ddienw, gan greu cymunedau mwy diogel ar draws y DU.

Rydym yn gwybod bod ein gallu i gael effaith ystyrlon yn allanol yn cychwyn yn fewnol: gyda'r rhai sy'n gweithio i'r elusen.

Gwobr Profiad Cyflogai

Dyna pam ein bod yn arbennig o falch o ddathlu cyfres o gyflawniadau eleni sy'n adlewyrchu nerth ein diwylliant a'n buddsoddiad parhaus yn ein pobl. Yn fwyaf nodedig, cydnabuwyd **Crimestoppers wrth iddi ennill Gwobr Profiad Cyflogai 2025 Cezanne Connect** am ragoriaeth o ran profiad y cyflogai trwy gyfrwng gwelliannau a wnaethpwyd i'r prosesau recriwtio a chynefino.

Mae'r gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu'r gwaith parhaus i greu gweithle lle y mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo, eu grymuso a'u bod yn gysylltiedig â'n cenhadaeth

yn ystod pob cam o'u taith gyda Crimestoppers.

Gwelliant mewn cyfraddau cadw cyflogaion

Mae tueddiadau calonogol yn ein metrigau pobl yn cyd-fynd â'r cyflawniad hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld gostyngiad arwyddocaol mewn trosiant cyflogaion a chynnydd parhaus yn hyd cyfnodau gwasanaeth unigolion. Wrth i'r trosiant leihau, rydym wedi bod yn dal ein gafael ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr ar draws y sefydliad, yn enwedig yn ein Canolfan Gyswilt.

Ar yr un pryd, amlygodd ein harolwg staff diweddaraf welliannau ar draws sawl mesur allweddol yn ymwneud ag ymgysylltu a phrofiad cyflogaion. Yn arbennig, adroddodd cydweithwyr am lefelau cryfach o ran teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod am eu cyfraniad. Roedd cyfranogiad cyffredinol yn yr arolwg wedi cyrraedd dros 82% hefyd, gan

ddangos ymgysylltu cryf a chan roi dirnadaeth werthfawr i ni o brofiadau ein pobl.

Gwaith tîm cryfach, safonau uwch

Pan fydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod pobl yn gwrandao arnynt a'u bod yn gallu cyfrannu mewn ffordd ystyrlon, maent yn fwy tebygol o ymgysylltu â'u gwaith a bod yn fwy ymroddedig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein buddiolwyr.

Mae trosiant is yn creu buddion sylweddol wrth gadw cydweithwyr talentog sy'n cynnig parhad, gwaith tîm cryfach ac mae'n cynnal y safonau uchel y mae ein buddiolwyr a'n rhanddeiliaid yn eu disgwyl.

O safbwynt AD, nid yw profiad cadarnhaol i gyflogai yn ymwneud â chreu lle da i weithio yn unig, mae'n ysgogydd strategol perfformiad sefydliadol. Mae sefydliadau sy'n ymgysylltu â'u pobl ac yn eu cadw, mewn sefyllfa well i ymateb i heriau ac addasu i newid.

Ein gwirfoddolwyr anhygoel

Rydym yn falch o'n gwirfoddolwyr a'n Cenhadon o gymunedau ar hyd a lled y DU sy'n cefnogi ein helusen.

Maent yn ein helpu i gysylltu gyda chymunedau, rhannu ein haddewid i gadw pobl yn ddienw a dangos bod pawb yn gallu codi eu llais er mwyn atal trosedd.

Rhoddodd dros **250 o wirfoddolwyr**, gyda chymorth ein Cenhadon a'n partneriaid cymunedol, **dros 10,000 awr o'u hamser eleni**, gan ymgysylltu gyda miloedd o bobl ar draws y DU trwy gyfrwng digwyddiadau, annerchiadau a phartneriaethau lleol, gan annog mwy o bobl i godi eu llais a rhoi stop ar drosedd.

Rydym yn hynod ddiolchgar am eu hymroddiad a'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud bob dydd.



CrimeStoppers Volunteer Awards 2026

Mae ein Gwobrau Gwirfoddolwyr yn gyfle gwyh i ddangos gwaith arbennig ein gwirfoddolwyr CrimeStoppers, ar hyd a lled y wlad.

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Carolyn Randall
Julie Davison, Pwyllgor Durham a Darlington

Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc Academi Goudie

Gwobr Codi Arian Krystal Keeley,
Pwyllgor De-orllewin Lloegr

Gwobr Arwr Di-sôn-amdanynt Celia Muir, Pwyllgor Gorllewin Mersia

Gwobr Cennad Cymunedol Colin Dobinson
Dave a Lynn Baker, Pwyllgor Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Gwobr Cyflawniad Oes Jane McCann, Pwyllgor Gorllewin Mersia

Gwobr Cyflawniad Oes Jane Antrobus, Bwrdd Cyngori
Gogledd-orllewin Lloegr

Gwobr Pwyllgor y Flwyddyn Pwyllgor De-orllewin Lloegr

Gwobr Gorfforaethol y Prif Swyddog Gweithredol Y Tim Diogelu yn Wolverhampton Wanderers

Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Wrth i ni ystyried dyfodol ein helusen, byddwn yn canolbwyntio ar helpu'r rhai y mae angen ein gwasanaethau arnynt fwyaf er mwyn iddynt allu codi eu llais mewn ffordd ddiogel. Rydym wedi mireinio ein nodau strategol:

- 1. Darparu gwybodaeth ddienw ac unigryw am droseddau a gwasanaethau o ansawdd uchel**
Darparu gwybodaeth unigryw o ansawdd uchel a pharhau i wella ein gwasanaethau i ddefnyddwyr, yr heddlu a phartneriaid.
- 2. Meithrin hyder i godi llais**
Annog adrodd trwy feithrin ymddiriedaeth, cyfathrebu mewn ffordd glir a dangos effaith codi llais.

- 3. Cysylltu â phob cymuned**
Gweithio gyda rhwydweithiau o bobl a sefydliadau er mwyn cyrraedd mwy o gymunedau a gweithleoedd.
- 4. Bod yn elusen effeithiol ac effeithlon**
Darparu gwerth i fuddiolwyr a rhanddeiliaid wrth gynnig profiad cadarnhaol i staff a gwirfoddolwyr.

Law yn llaw â'n gweithgareddau presennol, mae'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

Gwella ansawdd gwybodaeth ddienw a gwasanaethau cysylltiedig yr ydym yn eu darparu ar gyfer yr heddlu a phartneriaid.

- Cynllunio gwasanaethau gwell, a nodir gan bartneriaid a'r cyhoedd, er mwyn parhau i fod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn effeithlon.
- Peilota technoleg er mwyn gwella'r broses o gasglu a phrosesu gwybodaeth gan y cyhoedd.
- Canolbwyntio ar lefelau gwasanaeth y Ganolbarth Gyswilt er mwyn darparu gwasanaeth ymateb sydd o safon uchel cyson.

Gwella ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau ymhlith ein defnyddwyr tebygol.

- Casglu dirnadaeth gan y gynulleidfa, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd, er mwyn siapia negeseuon a sianelau cyfathrebu yn y dyfodol.
- Bydd ymgyrchoedd brand wedi'u teilwra yn defnyddio ffyrdd creadigol a rhatach o gyrraedd y cynulleidfa oedd hyn.
- Sefydlu a gwella'r dulliau er mwyn profi a gwerthuso effaith ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Ymestyn ein cronfa o gefnogwyr a'n rhwydweithiau er mwyn cyrraedd pob cymuned a helpu rhanddeiliaid gyda'n nodau ar y cyd i ddatrys ac atal trosedd.

- Caiff effeithlonrwydd gwirfoddolwyr ei wella trwy gyfrwng hysbysebion recriwtio newydd,

hyfforddiant ehangach, mwy o ymgysylltu gyda Chenhadon Cymunedol, a data i ddangos effaith.

- Casglu dirnadaeth am ddealltwriaeth yr heddlu a rhanddeiliaid masnachol o'n gwasanaeth a'i ddefnyddio er mwyn gwella cyfathrebu, incwm a pherthnasoedd.
- Datblygu partneriaethau sy'n hyrwyddo adrodd am droseddau ac ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd, sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth ein rhanddeiliaid.
- Ymgysylltu â newidiadau plismona arfaethedig er mwyn dyfnhau perthnasoedd allweddol a chynorthwyo sefydlogrwydd yr elusen.

Bod yn elusen effeithiol ac effeithlon, gan gynnig y gwerth gorau i'n buddiolwyr a'n partneriaid, a'r profiad gorau i gydweithwyr a gwirfoddolwyr.

- Caiff dull gweithredu mwy cydlynol a dros y tymor hwy tuag at ddatblygiadau technegol ei siapia gyda'n prif gyflenwyr.
- Gwella amseroldeb, cysondeb ac effeithlonrwydd adrodd data, gyda chymorth offerynnau dadansoddi a phrosesu.
- Gwella effeithlonrwydd rheolaeth ariannol a darparu gwybodaeth well er mwyn cynorthwyo penderfyniadau.
- Cynllunio hyfforddiant sgiliau rheolwyr a rheoli talent fel bod cydweithwyr yn gallu datblygu eu gyrfa oedd yn yr elusen.
- Parhau hyfforddiant sgiliau technegol a chymorth i gydweithwyr, gan gynnwys SharePoint, Co-Pilot, Teams a Dynamics CRM.
- Adolygu a diweddarau gweithrediad y Cod Llywodraethu Elusennau a'r Cod Codi Arian.

Nid y cyfrifon statudol yw'r datganiadau ariannol cryno, ond crynodeb o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol a'r fantolen gyfunol o adroddiadau a datganiad ariannol Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u harchwilio'n llawn, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 23 Gorffennaf 2026. Roedd datganiad yr archwilwyr yn unol â'r hyn a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ddiamod. Yn dilyn hyn, caiff copïau o'r datganiadau ariannol llawn eu ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a Thŷ'r Cwmnïau. Efallai na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth

gyflawn o faterion ariannol yr elusen. Mae adroddiad a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolwyr, wedi'u harchwilio'n llawn, ar gael ar wefan yr elusen, www.crimestoppers-uk.org, neu gellir gwneud cais i swyddfa ganolog yr elusen am gopi.

Peter Gaze

Peter Gaze FCA
Ymddiriedolwr
23 Gorffennaf 2026

Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

(Gan gynnwys y cyfrif incwm a gwariant) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

		Cronfeydd		Cyfanswm	Cronfeydd		Cyfanswm y
		Anghyfyngedig	Cyfyngedig	y Cronfeydd	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Cronfeydd
		£	£	2025	£	£	2024
Nodiadau		£	£	£	£	£	£
Incwm							
Incwm gan weithgareddau elusennol	1	4,649,201	-	4,649,201	4,598,737	-	4,598,737
Rhoddion a chymynroddion	2	1,281,749	1,343,411	2,625,160	1,352,156	1,066,191	2,418,347
Gweithgareddau masnachu eraill	3	557,359	-	557,359	554,306	1,039	555,345
Incwm gan fuddsoddiadau		163,017	-	163,017	131,594	-	131,594
Cyfanswm yr incwm a'r gwaddolion		6,651,326	1,343,411	7,994,737	6,636,793	1,067,230	7,704,023
Gwariant							
Gweithgareddau elusennol	4	5,416,218	1,450,742	6,866,960	5,344,871	1,153,448	6,498,319
Gwariant ar godi arian	5	539,049	-	539,049	571,276	-	571,276
Cyfanswm y gwariant		5,955,268	1,450,742	7,406,009	5,916,147	1,153,448	7,069,595
Enillion net ar fuddsoddiadau		18,236	-	18,236	-	-	-
Incwm/(gwariant) net cyn trosglwyddiadau		714,295	(107,331)	606,965	720,646	(86,218)	634,427
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd		(86,313)	86,313	-	(65,409)	65,409	-
Incwm/(gwariant) net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill		627,982	(21,018)	606,965	655,237	(20,809)	634,427
Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill							
Elw/(colled) actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	17	-	-	-	-	-	-
Symud net mewn cronfeydd		627,982	(21,018)	606,965	655,237	(20,809)	634,427
Cysoni Cronfeydd							
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		3,842,136	110,762	3,952,898	3,186,899	131,571	3,318,470
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		4,470,118	89,744	4,559,862	3,842,136	110,762	3,952,898

Mae'r holl symiau yn deillio o weithgareddau sy'n parhau. Nid oes unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill ac eithrio'r rhai a nodir uchod.

Datganiad yr Archwilydd
Annibynnol i aelodau
Ymddiriedolaeth Crimestoppers

Adroddiad yr archwilydd
annibynnol ar y Datganiadau
Ariannol Cryno

Mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n cyd-fynd â hwn, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, yn deillio o ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Mynegom farn archwilio ddiamod am y datganiadau ariannol hynny yn ein hadroddiad dyddiedig 18 Awst 2026. Nid yw'r datganiadau ariannol hynny, a'r datganiadau ariannol cryno, yn adlewyrchu effeithiau digwyddiadau a ddigwyddodd ar dyddiad ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol hynny.

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno yn cynnwys yr holl ddatgeliadau sy'n ofynnol dan "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (effeithiol o 1 Ionawr 2019). Felly, nid yw darllen y datganiadau ariannol cryno yn gallu cymryd lle darllen datganiadau ariannol archwiledig Ymddiriedolaeth Crimestoppers.

Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr
dros y Datganiadau
Ariannol Cryno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig ac argymhellion y SORP elusennau.

Cyfrifoldeb yr Archwilydd

Ein cyfrifoldeb yw mynegi barn am y datganiadau ariannol cryno ar sail ein gweithdrefnau, a gynhaliwyd yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) 810, "Ymgysylltiadau i Adrodd am Ddatganiadau Ariannol Cryno."

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n deillio o'r datganiadau ariannol archwiledig ac Adroddiad Blyneddol yr Ymddiriedolwyr o Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn gyson, ym mhob ystyr perthnasol, gyda'r datganiadau ariannol hynny.

David Hoose

David Hoose
(Archwilydd Statudol Uwch)

dros ac ar ran Forvis Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac
Archwilydd Statudol
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road,
Sutton, Surrey, SM1 4FS

Dyddiad: 18 Awst 2026

Diolch i’n partneriaid a’n cefnogwyr

Mae ein gwaith yn dibynnu ar gymorth hollbwysig ymddiriedolaethau, sefydliadau, cymuned gorfodi’r gyfraith, a’n partneriaethau gyda’r sector cyhoeddus a masnachol. Trwy rannu ein gwerthoedd, maent yn helpu i hyrwyddo proffil cyhoeddus ein helusen i gynulleidfaoedd newydd sy’n gallu cael budd o’n gwasanaeth unigryw.

Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

- Sefydliad Bestway
- Ymddiriedolaeth Elusenol Peacock
- Ymddiriedolaeth Summerfield
- Sefydliad Woodland
- Ymddiriedolaeth Shawlands
- Ymddiriedolaeth Elusenol Mr a Mrs TCS Haywood
- Ymddiriedolaeth Elusenol Gilbert ac Eileen Edgar
- Ymddiriedolaeth Ingram
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Sefydliad Octopus
- Ymddiriedolaeth yr Heddlu Uchel Siryf Manceinion

Partneriaethau

- Anker Innovations (Eufy)
- Cymdeithas Siopa Cyfleustra (ACS)
- B&Q a Screwfix
- Bakers Basco
- Llu’r Ffiniau
- Cymdeithas Adloniant Sgrin Prydain (BASE)
- Cymdeithas DanceSport Prydain (BDSA)
- Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain (BHA)
- Gwasanaethau Cymorth Carlisle
- Centrica Plc
- Criced Yr Alban
- Crime Stoppers Rhyngwladol
- DPD UK
- Comisiwn Etholiadol
- Bwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB)
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- EPC-UK
- Esri UK
- Asiantaeth Gwaith Teg (GLAA yn flaenorol)
- Federation Against Copyright Theft (FACT ar draws y Byd)
- Safonau Bwyd Yr Alban
- Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig (FSR)
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS)
- Cyllid a Thollau EF (HMRC)
- imabi
- Gorfodi Mewnfudo
- Sefydliad Safonau y Wasg Annibynnol (IPSO)
- Biwro Twyll Yswiriant (IFB)

- Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO)
- Llywodraeth Ynys Manaw
- JD Sports
- Liberty London
- LINK
- Long Clawson Dairy
- Swyddfa Plismona a Throseddu y Maer (MOPAC) – Llundain
- Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Morrisons
- Müller y DU ac Iwerddon
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)
- NEXT plc
- Awdurdod Gwrth-dwyll GIG
- Gwasanaethau Gwrth-dwyll GIG Yr Alban
- Rhwydweithiau Trydan Gogledd Iwerddon (Rhwydweithiau NIE)
- Openreach
- Retail Energy Code Company (RECCo)
- Ring (Amazon)
- Y Post Brenhinol
- Achub y Plant y DU
- Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA)
- Sky UK Limited
- Hufenfa De Arfon
- Sport Resolutions (UK Sport)
- Thames Water
- UK Anti-Doping (UKAD)
- UK Border Watch (Llinell Troseddau Arfordirol yn flaenorol)
- Vivastreet
- William Hill

FireStoppers gyda Gwasanaethau Tân ac Achub

- Brigâd Dân Cleveland
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Durham a Darlington
- Gwasanaeth Tân ac Achub Sirol Essex
- Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Hertford
- Gwasanaeth Tân ac Achub Humberside
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Lincoln
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Swydd Efrog
- Gwasanaeth Tân ac Achub Tyne a Wear

Codi Llais FRS gyda Gwasanaethau Tân ac Achub

- Gwasanaeth Tân ac Achub Avon
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Bedford
- Gwasanaeth Tân ac Achub Cymbria
- Gwasanaeth Tân ac Achub Dorset a Wiltshire
- Gwasanaeth Tân ac Achub Sirol Essex
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerloyw
- Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf
- Gwasanaeth Tân ac Achub Humberside
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Lincoln
- Gwasanaeth Tân ac Achub Norfolk
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Swydd Efrog
- Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Northampton
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Suffolk
- Gwasanaeth Tân ac Achub Surrey

Heddlu sydd â Llinellau Uniondeb

- Heddlu Swydd Bedford
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Heddlu Swydd Caergrawnt
- Heddlu Swydd Gaer
- Heddlu NiwcLEAR Sifil
- Heddlu Swydd Derby
- Heddlu Dyfnaint a Chernyw
- Heddlu Dyfed-Powys
- Heddlu Swydd Gaerloyw
- Heddlu Manceinion Fwyaf
- Heddlu Guernsey
- Heddlu Hampshire ac Ynys Wyth
- Heddlu Swydd Hertford
- Heddlu Ynys Manaw
- Heddlu Caint
- Heddlu Swydd Gaerlŷr
- Heddlu Glannau Mersi
- Gwasanaeth Heddlu Llundain
- Heddlu Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Northumbria
- Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
- Heddlu Brenhinol Gibraltar
- Gwasanaeth Heddlu Brenhinol Montserrat
- Heddlu De Cymru

Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol

- Heddlu Swydd Stafford
- Heddlu Taleithiau Jersey
- Heddlu Dyffryn Tafwys
- Heddlu Swydd Warwig
- Heddlu Gorllewin Mersia
- Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
- Heddlu Wiltshire

Safonau Masnach

- Safonau Masnach Swydd Gaer a Glannau Mersi
- Safonau Masnach Dwyrain Canolbarth Lloegr

- Safonau Masnach Manceinion Fwyaf
- Safonau Masnach Caint
- Safonau Masnach Cymru

Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Ashcroft KCMG PC

Ymddiriedolwyr

- *Ms Angela Entwistle – Dirprwy Gadeirydd
- Arglwydd Choudrey CBE SI Pk
- *Mr Peter Clarke CVO OBE QPM
- Ms Ceris Gardner
- Mr Peter Gaze FCA
- Mr Bill Griffiths CBE BEM QPM
- Mr Stewart Harris FCA
- Mr Martin Hewitt CBE QPM
- Ms Suzanne Jacob OBE
- *Mr Michael Laurie CBE
- Mr Nick Ross CBE
- Mr Stephen Rubin OBE
- Syr Paul Stephenson QPM

Bwrdd Cyngchori

Mae Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr a swyddogion y nodir * wrth ymyl eu henw yn gwasanaethu ar y Bwrdd Cyngchori, ynghyd â’r canlynol:

- Mr Phil O’Shea
Dirprwy Gadeirydd ac Aelod AB dros Ogledd Iwerddon a’r Ynysoedd (Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel)
- Miss Jane Antrobus
Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
- Mr Bill Cullen
Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Mrs Nina Dawes
Cynrychiolydd Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Mr John Dobbin
Cynrychiolydd Rhanbarth Swydd Efrog a Humberside
- Mr Jonathan Drake
Cynrychiolydd Cymru
- Mr Jonathan Hamill
Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Mr Stuart Rawlins
Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Lloegr
- Mr Peter Rolington
Cynrychiolydd Rhanbarth De Lloegr

Swyddogion Uwch

- *Mr Mark Hallas OBE
Prif Weithredwr
- *Mr Stephen Mann
Cyfarwyddwr Cyllid, Ysgrifennydd Cwmni
- *Mr Michael Duthie
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- *Ms Kate Johnston
Cyfarwyddwr Datblygu Busnes
- *Ms Karen Ogborn
Pennaeth y Staff

Bancwyr

The Royal Bank of Scotland plc
280 Bishopsgate, Llundain, EC2M 4RB

Archwilwyr

Forvis Mazars LLP
Parkview House, 58 The Ropewalk,
Nottingham NG1 5DW

Cyfreithwyr

Bates Wells,
10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1BE

Statws

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Crimestoppers yn wreiddiol gan Weithred Ymddiriedolaeth ar 20 Hydref 1986 ac fe’i cofrestrwyd gan y Comisiwn Elusennau, a ddaeth i rym ar 4 Tachwedd 1987. Ar 1 Ebrill 2005, trosglwyddwyd yr ymgymriad cyflawn dros Ymddiriedolaeth Crimestoppers i gwmni cyfyngedig trwy warant, Rhif Cwmni 05382856, sy’n elusen gofrestredig ei hun, Rhif 1108687 (Lloegr) a Rhif SC037960 (Yr Alban).

Mae swyddfa gofrestredig yr elusen yn Sedulo London, Swyddfa 605, Albert House, 256-260 Old Street, Llundain, EC1V 9DD.

Y brif swyddfa yw: Blwch Post 324, Wallington, SM6 6BG.

Codi llais. Rhoi stop ar droseddu. Cadw'n ddiogel.

Mae Crimestoppers yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i chi godi eich llais i roi stop ar droseddu, mewn ffordd hollol ddienw.

Mae hyn yn golygu:

- Dim heddlu
- Dim datganiadau tyst
- Dim llysoedd

Dywedwch wrthym yr hyn yr ydych yn ei wybod, nid pwy ydych chi.

crimestoppers-uk.org

Codi llais ac aros yn hollol ddienw.
Bob tro.

© Ymddiriedolaeth Crimestoppers, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1108687), yr Alban (SC037960).

CrimeStoppers.

0800 555 111

100% anonymous. Always.